



St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

POLISI PREVENT

Awdur	Pennaeth Cynorthwyol
Fersiwn	2. 0
Statws	Byw
Dyddiad Cymeradwyo	Mawrth 2026
Cymeradwywyd gan	Ethos a Diwylliant Catholig
Dyddiad Cychwyn	Mawrth 2028
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf	Ion 2028
Cyfrifoldeb am yr Adolygiad	Pennaeth Cynorthwyol- Diwylliant y Dysgwr
Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Oes
Ystyriwyd Goblygiadau Iechyd a Lles	Do

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad	Adolygwyd/Addaswyd gan
1.0	Ionawr 2025	<i>Fframwaith i amddiffyn myfyrwyr a staff rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, gan sicrhau eu diogelwch a'u lles drwy atal ac ymateb i bryderon diogelu.</i>	Pennaeth Cynorthwyol
2.0	Chwefror 2026	<i>Wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu Canllawiau Dyletswydd Atal (2023) a Chadw Dysgwyr yn Ddiogel; wedi cryfhau trefniadau cofnodi, atgyfeirio a phartneriaeth allanol; wedi ychwanegu mesurau diogelwch ar-lein ac wedi egluro aliniad traws-bolisi.</i>	Pennaeth Cynorthwyol

POLISI PREVENT

Cynnwys

POLISI PREVENT	2
1. Ystod	3
2. Nodau.....	3
3. Cyflwyniad.....	4
3.1 Diffiniad o Radicaleiddio	4
4. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.....	5
5. CONTEST – Y Strategaeth Genedlaethol	5
5.1 Amcanion y Polisi Prevent.....	5
5.2 Rhaglen Channel (Cymru)	6
6. Polisi Prevent y Coleg.....	6
6.1 Diogelwch Ar-lein a Risg Digidol	6
6.2 Gweddi a Gweithgareddau Ffydd	7
6.3 Gweithdrefnau Siaradwyr a Lleoliad.....	7
7. Risgiau ac Agoredrwydd i Niwed.....	7
8. Monitro a Chofnodi Pryderon	8
8.1 Dysgwyr yn Adrodd	8
9. Atgyfeirio a Phartneriaeth Allanol	9
10. Hyfforddiant Staff	9
11. Adolygu a Llywodraethiant	10

1. Ystod

Mae'r Polisi Prevent yn rhan o fframwaith Diogelu ac Amddiffyn Plant ehangach y Coleg, sy'n hyrwyddo ac yn diogelu lles plant ac oedolion agored i niwed. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i lywodraethwyr, staff addysgu, staff cymorth, myfyrwyr, gwirfoddolwyr a siaradwyr gwadd.

Caiff ei hysbysu gan:

- Adran 26 y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Arweiniad Dyletswydd Prevent Lloegr a Chymru (Y Swyddfa Gartref, 2023; yn cychwyn 31 Rhagfyr 2023)
- CONTEST 2023
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Llywodraeth Cymru)

Dylid darllen y polisi hwn ochr yn ochr â:

- Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant
- Polisi Gweddi a Litwrgi
- Polisi Siaradwyr Allanol a Digwyddiadau
- Polisi Urddas y Dysgwr
- Asesiad Risg Prevent

Disgwylir i bob aelod o staff gynnal safonau proffesiynol a gweithredu yn unol ag ethos Catholig y Coleg a'i ddyletswyddau diogelu statudol. Bydd unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad staff, gan gynnwys mynegi neu hyrwyddo safbwyntiau eithafol, yn cael eu trafod drwy weithdrefnau diogelu ac AD yn unol â pholisi'r Coleg.

2. Nodau

Nod y Polisi Prevent yw sicrhau bod yr holl staff yn deall eu dyletswydd Prevent ac yn hyderus wrth adnabod ac ymateb yn briodol i unigolion sydd mewn perygl o radicleiddio neu eithafiaeth. Mae'n darparu system strwythuredig i ddogfennu a monitro pryderon Prevent posibl ac yn sefydlu prosesau mewnol clir ar gyfer adrodd ac atgyfeirio.

Mae'r Coleg yn ceisio datblygu dull cadarn, cymesur a seiliedig ar risg ar gyfer Prevent. Cyflwynir rhaglenni addysgol i helpu myfyrwyr i ddadansoddi naratifau eithafol yn feirniadol a datblygu gwydnwch. Mae addysg Prevent wedi'i hymgorffori yn y cwricwlwm bugeiliol ar Lefel 2 a Lefel 3.

Mae'r polisi hefyd yn cefnogi dileu amgylcheddau goddefol, ffisegol neu ar-lein, a allai alluogi eithafiaeth, ac yn llywio camau gweithredu o fewn Asesiad Risg Prevent y Coleg.

3. Cyflwyniad

Mae'r bygythiad o derfysgaeth ac eithafiaeth o fewn y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn ddifrifol ac yn esblygu. Mae ideolegau eithafol yn ceisio manteisio ar unigolion agored i niwed, gan gynnwys pobl ifanc. Gall y bygythiadau hyn ddeillio o eithafiaeth grefyddol, eithafiaeth asgell dde neu ideolegau eraill sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith clir i staff wrth ymateb i bryderon diogelu sy'n ymwneud â radicaleiddio. Cyflwynir Prevent fel rhan o gyfrifoldebau bugeiliol a diogelu'r Coleg.

Fel coleg Catholig o fewn Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw, mae diogelu wedi'i wreiddio yn ein cred yn urddas pob person, wedi'i greu ar lun a thebygrwydd Duw. Felly, mae gwaith Prevent yn cael ei ddeall fel estyniad o'n cenhadaeth i amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo'r lles cyffredin.

3.1 Diffiniad o Radicaleiddio

Diffinnir radicaleiddio fel y broses lle mae pobl yn dod i gefnogi terfysgaeth ac ideolegau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol.

Mae Canllawiau Dyletswydd Prevent (2023) yn nodi:

“Dylai staff wybod pa fesurau sydd ar gael i atal radicaleiddio i derfysgaeth a sut i adnabod yr ideolegau eithafol sy'n gyrru pobl i ddod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Dylai staff fod yn ymwybodol o arwyddion radicaleiddio a dylent ddeall sut i atgyfeirio a chyfeirio pryderon at Prevent.”

4. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r polisi hwn yn sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail hil, lliw, tarddiad cenedlaethol neu ethnig, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, oedran, crefydd, cred neu farn wleidyddol.

Yn unol ag Addysg Gymdeithasol Gatholig, mae'r Coleg yn cadarnhau urddas cynhenid pob person. Mae Prevent yn cael ei weithredu'n gymesur a heb wahaniaethu, yn gyson â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ethos Catholig y Coleg.

5. CONTEST – Y Strategaeth Genedlaethol

Mae Prevent yn ffurfio un llinyn o Strategaeth Gwrthderfysgaeth y DU (CONTEST 2023). Ei nod yw atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Mae Prevent yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a diogelu.

Pedwar llinyn CONTEST yw:

- Prevent – atal pobl rhag cael eu radicaleiddio
- Protect – cryfhau amddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol
- Paratoi – lliniaru effaith ymosodiadau
- Pursue – atal gweithgaredd terfysgol

5.1 Amcanion y Polisi Prevent

Amcanion y Polisi Prevent yw:

- Ymateb i her syniadaeth terfysgaeth.
- Atal unigolion rhag cael eu sugno mewn i derfysgaeth a darparu cefnogaeth addas.
- Cydweithio â'r heddlu a thimoedd Prevent i fynd i'r afael â risgiau radicaleiddio.

5.2 Rhaglen Channel (Cymru)

Yng Nghymru, mae Channel yn rhan o Uned Eithafiaeth a Gwrth-Derfysgaeth Cymru (WECTU), sy'n cynnig ymyraethau amlasiantaeth i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed gan radicaleiddio.

Mae Channel yn ddull amlasiantaeth sy'n darparu cefnogaeth i unigolion sydd mewn perygl o gael eu denu i weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae Channel yn ceisio:

- Sefydlu proses atgyfeirio ac ymyrryd amlasiantaeth effeithiol i nodi unigolion sy'n agored i niwed;
- Diogelu unigolion a allai fod yn agored i gael eu radicaleiddio, fel nad ydynt mewn perygl o gael eu denu i weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth;
- Darparu ymyrraeth gynnar i amddiffyn a dargyfeirio pobl i ffwrdd o'r risgiau y maent yn eu hwynebu a lleihau'r graddau maent yn agored i niwed.

6. Polisi Prevent y Coleg

Mae'r Coleg yn hyrwyddo gwerthoedd Catholig, Cymreig a Phrydeinig drwy ffurfiant bugeiliol, myfyrio ysbrydol a chyflwyno cwricwlwm sy'n meithrin urddas, goddefgarwch a meddwl beirniadol.

Cyflwynir addysg ataliol drwy'r rhaglen fugeiliol a'i hatgyfnerthu drwy gyfathrebu diogelu a gweithgaredd cwricwlwm.

Dylai staff barhau i fod yn wyladwrus o arwyddion a allai ddangos agoredrwydd i radicaleiddio, gan gynnwys newidiadau mewn ymddygiad, mynegi barn eithafol, mynediad at gynnwys eithafol ar-lein, anoddefgarwch tuag at amrywiaeth neu ymddygiad amheus gan siaradwyr gwadd.

6.1 Diogelwch Ar-lein a Risg Digidol

Mae'r Coleg yn cydnabod bod radicaleiddio'n digwydd yn aml drwy lwyfannau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys digidol. Fel rhan o'i gyfrifoldebau diogelu, mae'r Coleg yn cynnal systemau hidlo a monitro TG priodol i leihau'r risg y bydd dysgwyr yn cael mynediad at ddeunydd eithafol.

Adolygir risgiau ar-lein fel rhan o Asesiad Risg Atal y Coleg ac ymdrinnir â nhw drwy fesurau diogelu digidol, y Polisi Defnydd Derbyniol ac addysg fugeiliol sy'n hyrwyddo meddwl beirniadol ac ymddygiad cyfrifol ar-lein.

6.2 Gweddi a Gweithgareddau Ffydd

Fel coleg Catholig, mae gweddi a litwrgi yn ganolog i fywyd y Coleg ac fe'u llywodraethir gan y Polisi Gweddi a Litwrgi. Mae'r Coleg yn croesawu dysgwyr o bob ffydd a dim ffydd ac yn darparu manau priodol ar gyfer gweddi a myfyrio.

Rhaid i bob gweithgaredd gweddi a ffydd gydymffurfio â dyletswyddau diogelu, cydraddoldeb a statudol. Mae cymryd rhan mewn gweddi yn wirfoddol. Mae'r Coleg yn cadw cyfrifoldeb am sicrhau bod ei gyfleusterau'n cael eu defnyddio'n briodol ac nad ydynt yn cael eu camddefnyddio gan unrhyw unigolyn neu grŵp.

Bydd unrhyw bryderon diogelu neu Atal sy'n codi mewn perthynas â gweithgaredd sy'n gysylltiedig â ffydd yn cael eu cofnodi a'u mynd i'r afael â nhw trwy weithdrefnau diogelu sefydledig a'u hadlewyrchu yn Asesiad Risg Atal y Coleg lle bo'n briodol.

6.3 Gweithdrefnau Siaradwyr a Lleoliad

Rhaid i bob siaradwr a digwyddiad allanol gydymffurfio â'r Polisi Siaradwyr a Digwyddiadau Allanol. Rhaid dilyn gweithdrefnau cymeradwyo, asesu risg a hysbysu priodol i sicrhau nad yw cyfleusterau'r Coleg yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ideoleg eithafol.

7. Risgiau ac Agoredrwydd i Niwed

Mae eithafiaeth yn cwmpasu amrywiol ideolegau ac nid oes proffil nodweddiadol o eithafwr. Gall ffactorau sy'n dylanwadu ar fregusrwydd gynnwys argyfwng hunaniaeth, argyfwng personol, ynysu cymdeithasol, dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol ar-lein neu densiynau cymunedol.

Gall dangosyddion risg gynnwys cyswllt â recriwtwyr eithafol, cefnogaeth i ideolegau treisgar, cael mynediad at lenyddiaeth eithafol neu newid ymddygiad sylweddol. Caiff y risgiau hyn eu monitro trwy Asesiad Risg Atal y Coleg a'u trin yn gymesur.

8. Monitro a Chofnodi Pryderon

Rhaid trin pob pryder sy'n ymwneud â radicaliaeth neu eithafiaeth fel pryderon diogelu.

- Rhaid i staff gofnodi pryderon ar MyConcern cyn gynted â phosibl. Mewn sefyllfaoedd brys, rhaid adrodd pryderon ar unwaith i aelod o'r Tîm Diogelu, ac yna gwneud cofnod ysgrifenedig ar MyConcern.
- Mae'r Coleg yn cynnal cofrestr Prevent i fonitro pryderon a nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r gofrestr hon yn cael ei goruchwyllo gan y Rheolwr Diogelu a Llesiant, sy'n gweithredu fel y Pwynt Cyswllt Cyntaf (FPOC) ar gyfer materion Prevent.
- Mae'r Rheolwr Diogelu a Llesiant, yn rhinwedd ei swydd fel FPOC, yn adrodd i'r Pennaeth Cynorthwyol, sef y Person Diogelu Dynodedig (DSP) fel rhan o strwythur llywodraethu diogelu'r Coleg.
- Mae'r Pennaeth Cynorthwyol (DSP) yn gyfrifol am uwch arweinyddiaeth Prevent ac yn sicrhau bod camau gweithredu priodol, dyrannu adnoddau ac ymateb strategol yn cael eu gweithredu lle bo angen. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol (DSP) yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar achosion, themâu a dangosyddion risg Prevent i sicrhau goruchwyliaeth weithredol effeithiol a chydymffurfiaeth â chanllawiau statudol.
- Mae'r Pennaeth yn cadw'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol Prevent ac yn derbyn sicrwydd trwy strwythurau adrodd diogelu sefydledig.

8.1 Dysgwyr yn Adrodd

- Anogir dysgwyr i roi gwybod am bryderon ynghylch ymddygiad eithafol, cynnwys niweidiol ar-lein neu unrhyw fater diogelu drwy sianeli diogelu sefydledig. Gall hyn gynnwys siarad â thiwtor, aelod o staff bugeiliol, caplaniaeth, neu'n uniongyrchol â'r Tîm Diogelu.
- Mae'r Coleg yn sicrhau bod llwybrau adrodd diogelu wedi'u harwyddo'n glir ac yn hygyrch. Mae posteri diogelu a ddangosir ar draws safle'r Coleg yn cynnwys codau QR sy'n cyfeirio dysgwyr at wybodaeth a chymorth adrodd. Yn ogystal, mae dolen

adrodd diogelu ar gael drwy dudalen lanio gwefan y Coleg i alluogi dysgwyr i godi pryderon yn hawdd ac yn gyfrinachol.

- Mae'r Coleg yn hyrwyddo diwylliant lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel i godi pryderon heb ofni stigma na dial, gan gydnabod bod adrodd yn gynnar yn elfen allweddol o ymarfer diogelu a Prevent effeithiol.

9. Atgyfeirio a Phartneriaeth Allanol

- Bydd y Person Cyswllt Cyntaf (FPOC) yn adolygu pob pryder sy'n gysylltiedig â Prevent ac yn pennu camau gweithredu priodol. Gall hyn gynnwys ymyrraeth fugeiliol fewnol, ymgynghori â'r swyddog Prevent lleol, neu atgyfeirio at Channel.
- Lle mae pryderon yn dynodi risg uwch, cymhlethdod neu oblygiadau posibl statudol neu i enw da, bydd y Person Cyswllt Cyntaf (FPOC) yn ymgynghori â'r Pennaeth Cynorthwyol a'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) cyn atgyfeirio'n allanol.
- Bydd pob atgyfeiriad Channel a phryder Prevent sylweddol yn cael eu trafod gyda'r Person Diogelu Dynodedig (DSP) a'r Dirprwy Bennaeth i sicrhau goruchwyliaeth ddiogelu briodol a chymesuredd.
- Gwneir atgyfeiriadau Channel yng Nghymru gan ddefnyddio Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Atal Cymru Gyfan ac mewn cysylltiad ag Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU).
- Mae'r Coleg yn gweithio'n agos gyda'i swyddog Prevent lleol a phartneriaid diogelu allanol i sicrhau bod pryderon yn cael eu trin yn briodol ac yn gymesur.
- Mewn achosion o berygl uniongyrchol, rhaid i staff gysylltu â'r heddlu.

10. Hyfforddiant Staff

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant Prevent gorfodol yn flynyddol fel rhan o raglen hyfforddi diogelu'r Coleg. Mae ymwybyddiaeth o Prevent wedi'i chynnwys yn y broses sefydlu staff ac yn cael ei hatgyfnerthu trwy friffiau a chyfathrebu diogelu rheolaidd.

Mae llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant Prevent priodol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau goruchwyllo.

11. Adolygu a Llywodraethiant

Bydd y Polisi Prevent hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'r Polisi Diogelu neu'n gynharach os bydd angen oherwydd newidiadau i ganllawiau cenedlaethol.

Darperir goruchwyliaeth gan y Grŵp Diogelu, gan gynnwys Llywodraethwr Cyswllt. Mae Diogelu, gan gynnwys Prevent, yn parhau i fod yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu.

Adolygir Asesiad Risg Prevent y Coleg o leiaf yn flynyddol a'i ddiweddarau mewn ymateb i wybodaeth leol, risgiau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg neu newidiadau i ganllawiau.